# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel

## Nos Fawrth, Mai 2ail 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Maldwyn Jones (cadeirydd), Alwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Dewi Pritchard, Gary Thomas a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rita Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Croesawu'r cynghorwyr.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - **Etholwyd Eifion Davies yn gadeirydd a Dewi Pritchard yn is-gadeirydd. Gan nad oedd Eifion Davies yn gallu bod yn bresennol cytunodd Maldwyn Jones i barhau yn y gadair.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau - **Adolygwyd a chafwyd yn gywir.**
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn/Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Gwynedd Jones.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor - **Cymeradwywyd.**

v) Cyfrifon 2022-23 - **Cymeradwywyd**

vi) Ffurflen Archwiliad Blynyddol y Cyngor – **Roedd trefniadau mewn lle i anfon y cyfrifon i Gyngor Gwynedd yr archwilwyr mewnol. Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar hyn o bryd.**

vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd **– Cytunwyd i gadw'r ffioedd yr un fath ar gyfer 2023-24.**

viii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2023/24 - **Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

ix) Adolygu Asedau **– Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cytunodd y cynghorwyr i archwilio'r asedau ac adrodd yn nol yn y cyfarfod nesaf.**

x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - **Adolygwyd ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r gwerthoedd ar gyfer cyflenwi nwyddau neu gwaith, pwynt 11 (g) o'r rheolau ariannol, i £5,000 a £1,000. Adolygwyd y gweddill a chafwyd yn gywir**